Eisteddfod Penrhyn-coch 2018
Cystadleuaeth Rhif 6: Stori Fer 'Cartref'

Daeth deg stori fer i law ac er bod egin storïau da ym mhob un, nid oes un ohonynt yn stori fer yn yr ystyr draddodiadol. Cafwyd sawl stori sydd yn fyr, a sawl ymson hefyd, ond roedd y straeon byrion yn brin.

Ta waeth…

Ymson a gafwyd gan BRAS MELYN - rhywun sydd wedi symud i Gymru o'r Dwyrain Pell ac sydd wedi ymroi i ddysgu Cymraeg ac ymddiddori yn niwylliant Cymru. Ceir disgrifiadau o gartrefi yn y Dwyrain Pell a disgrifiad o ymroddiad BRAS MELYN i Gymru. Darn cadarnhaol, diddorol, ond nid stori fer mohoni yn anffodus.

Stori am lofruddiaeth John Williams yn Llanddewibrefi tua chwarter canrif yn ôl a gafwyd gan IRFON. Er bod yr hanes wedi ei adrodd yn ddigon celfydd mewn iaith goeth, nid oes ymgais i wneud rhyw lawer yn fwy na hynny.

Mae stori GWYNFOR yn dechrau'n awgrymog iawn: 'Cyfrifodd yr wyau y pedwaredd gwaith. Yr oeddent hanner dwsin yn brin.' Dechrau gwych i stori! Yn anffodus, nid yw'r potensial yma a ddangoswyd ar y dechrau yn parhau drwy gydol y stori. Mae cynildeb y dweud a'r portread o'r wraig, Martha, ar y dechrau yn newid i fod yn stori ychydig yn anghredadwy ac anghynnil ac mae'r strwythur yn dechrau torri i lawr hefyd.

Ymson hen wraig mewn cartref hen bobl sydd gan SIRIOL ond sydd ychydig yn wahanol i'r arfer gan bod y wraig yn cynllunio dianc oddi yno yn ôl at gartref gwell! Mae'r stori'n gorffen gyda'r hen wraig ar gefn beic modur yn gafael yn dynn yn y gyrrwr yn mynd 'tua thoriad gwawr fel cath i gythraul'. Hoffais hon yn fawr oherwydd ei bod yn osgoi'r portread disgwyliadwy o hen wraig yn syrffedu mewn cartref - mae hon yn bigog ac yn benderfynol! Mae hwn yn bortread llwyddiannus iawn felly ond eto, ychydig yn or-syml yw'r stori.

Stori arswyd wir (dwi'n meddwl) sydd gan FFLUR am ddynes yn dod yn ôl i fwthyn ar lethrau'r rhos, wedi drysu ar ôl colli ei chariad yn y rhyfel. Mae plant y pentre yn ei dilyn i'r bwthyn ac yn canfod ei chyfrinach. Stori wedi ei hadrodd yn dda ond sydd yn rhoi'r ateb ychydig yn rhy hawdd.

Stori am hen lanc o'r enw Tom sydd gan ROSERA ac mae'r stori'n cychwyn gyda myfyrdod am waddol ac etifeddiaeth yng nghyd-destun ei gartref - Lasynys. Yna mae'n hel atgofion am garwriaeth gyda Sophia, ysbryd rhydd o ferch a adawodd yn sydyn gan adael dim ond breuddwydion ar ei hôl. Yna dyma ddynes yn cyrraedd y tŷ, ac yn rhoi gwybod i Tom ei bod yn ferch iddo. Stori hyfryd, ond un sydd ychydig yn ddu a gwyn, a phopeth yn digwydd ychydig yn rhy syml a thaclus.

Stori am ymweliad dyn â'i fodryb sydd mewn cartref hen bobl sydd gan HYDREF. Mae'n stori agos-atoch, wedi ei hysgrifennu mewn iaith goeth a naturiol ac mae'r cartref yn dod yn fyw yn y disgrifiadau. Mae'r ddeialog yn naturiol hefyd. Ychydig yn ddi-fflach yw hi, fodd bynnag,

yn yr ystyr nad yw'r stori yn 'mynd' i unrhyw le - mae'n bortread hyfryd os anesmwyth o berthynas a lle, ond roedd rhywun yn chwilio am fwy.

Stori mwy traddodiadol ei strwythur sydd gan IOLO ac mae'n stori afaelgar. Mae rhieni Dewi, milwr yn y fyddin, yn disgwyl ymlaen i'w groesawu adref, ond wedi iddo gyrraedd cânt eu siomi a'u brifo wrth i symptomau PTSD ddod i'r amlwg. Pen draw'r stori yw bod Dewi yn ymosod yn giaidd ar ei fam ac yn rhedeg i ffwrdd. Mae stori bwerus yma, ond mae'r cyfan yn digwydd yn rhy gyflym, a byddai mwy o gynildeb a datblygiad yn y stori yn ei gwella. Gydag ychydig o waith byddai'n stori dda iawn.

Mae ymson HYWEL am brofiadau rhyfel yn arbennig o drawiadol hefyd. Mae'n dechrau'n dda 'Cymerais anadl ddofn. Arogl cyfarwydd, unigryw, amhleserus.' Mae'r darlun o faes y gad yn gyfoethog. Mae'r cymeriad wedyn yn hiraethu am Anna, ei gariad, wrth hel atgofion mewn cartref hen bobl. Ymson yw hi, fodd bynnag, nid stori fer, a rhyw ymdroi yn ei feddyliau a wna'r cymeriad yn hytrach na datblygu stori. Mae'n ddarn da iawn o waith, fodd bynnag.

Gan SILVER MOKI y cafwyd y darn sydd wedi ei ysgrifennu yn y modd mwyaf naturiol, gafaelgar, ac sydd yn ymdebygu i stori fer. Mae'r ddeialog rhwng y nain a'i hwyres deirblwydd yn naturiol ac yn agos-atoch a'r disgrifiad o ddibyniaeth y nain ar alcohol yn bwyllog ac yn gynnil. Wedi colli ei gwaith mae'r broblem yn gwaethygu oherwydd bod mwy o amser ganddi i feddwl. Daw gwellhad at ddiwedd y stori ac mae'r nain yn cael gwarchod ei hwyres fach. Dyw'r stori ddim yn berffaith ond mae didwylledd y stori a naturioldeb y dweud yn ei chodi uwchlaw'r gweddill.